2022 MEDI

# Dysgu Oedolion yn y Gymuned







Dysgu Oedolion yn y Gymuned
Adult Community Learning
RHONDDA CYNON TAF

RHONDDA CYNON TAF

## Lleoliadau

**Llyfrgell Aberdâr**
Y Stryd Las, Aberdâr CF44 7AG

**Canolfan Pennar** (Llyfrgell Aberpennar)
Stryd Rhydychen, Aberpennar CF45 3HD

**Canolfan Calon Taf**
Parc Coffa Ynysangharad, Pontypridd CF37 4PD

**Canolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg (CDG)**
Heol Sant Illtyd, Pentre'r Ewglwys CF38 1RQ

**Llyfrgell Hirwaun**
Stryd Fawr, Hirwaun CF44 9SW

**Llys Cadwyn** (Llyfrgell Pontypridd)
Stryd y Taf, Pontypridd CF37 4TH

**Plaza'r Porth** (Llyfrgell Porth)
Heol Pontypridd, Porth CF39 9PG

**Llyfrgell Tonypandy**
Stryd De Winton, Tonypandy CF40 2QZ

**Llyfrgell Rhydfelen**
Cwrt y Llyfrgell, Heol y Poplys CF37 5LR

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg
You are welcome to communicate with us in Welsh

## Croeso

**Cwrs Addysg i Oedolion yn y Gymuned yw'r cyfle delfrydol i ddysgu sgil newydd, cwrdd â ffrindiau newydd a chael dechrau newydd.**

Mae ein tiwtoriaid yn gyfeillgar, yn brofiadol a byddan nhw'n eich croesawu i'n cyrsiau ac yn eich helpu. Mae nifer o'n cyrsiau wedi'u hachredu gan Agored Cymru. Bydd hyn yn eich galluogi i symud ymlaen i gyrsiau lefel uwch pe baech chi'n dymuno ennill cymwysterau.

### Camau Dysgu RhCT

Mae'r cyrsiau Camau Dysgu yn darparu cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu.

Mae'r cyrsiau'n eich annog i ddysgu sgiliau newydd, cwrdd â phobl newydd, dysgu ar gyflymder eich hun a gweithio gyda thiwtoriaid arbenigol. Mae'r cyrsiau'n wyneb yn wyneb ac ar-lein.

### Cymorth Saesneg a Mathemateg

Rydyn ni'n cynnig y cyfle i wella eich sgiliau Saesneg a Mathemateg mewn awyrgylch cefnogol gyda thiwtor profiadol a chyfeillgar. Mae cyrsiau'n cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn a chewch chi ymuno unrhyw bryd.

## Sut i gofrestru

**Cofrestrwch yma:**
**www.rctcbc.gov.uk/CofrestruAddysgOedolion**

Mae ffurflenni cofrestru papur ar gael hefyd.

**I gael rhagor o wybodaeth am sut i gofrestru neu am y cyrsiau, ffoniwch neu anfon e-bost:**

☎ **01443 570075**
✉ **AddysgOedolion@rctcbc.gov.uk**
**www.rctcbc.gov.uk/addysgoedolion**

## Iaith Arwyddion Prydain (BSL)

**Dechreuwyr:** I'r rheiny sydd am ddysgu Iaith Arwyddion Prydain o'r dechrau ac sydd heb ei dysgu o'r blaen.

**Y rheiny sy'n gwella:** I'r rheiny sydd wedi dysgu Iaith Arwyddion Prydain yn flaenorol ac sydd am wella'u sgiliau.

**Canolradd:** I'r rheiny sydd wedi cwblhau cymhwyster Iaith Arwyddion Prydain, yn ei deall ac yn gallu cynnal sgwrs syml mewn Iaith Arwyddion Prydain.

| **Canolfan Pennar** | | **Dechrau:** | |
|---|---|---|---|
| **DECHREUWYR:** Dydd Iau | 10:00am - 11:00am | 29/09/2022 | 30 wyth |
| **Y RHEINY SY'N GWELLA:** Dydd Iau | 11:15am - 12:15pm | 29/09/2022 | 30 wyth |
| **CDG Garth Olwg** | | **Dechrau:** | |
| **DECHREUWYR:** Dydd Llun | 11:00am - 12:00pm | 26/09/2022 | 30 wyth |
| **DECHREUWYR:** Dydd Llun | 2:00pm - 3:00pm | 26/09/2022 | 30 wyth |
| **Plaza'r Porth** | | **Dechrau:** | |
| **DECHREUWYR:** Dydd Mawrth | 11:00am - 12:00pm | 27/09/2022 | 30 wyth |
| **Llyfrgell Tonypandy** | | **Dechrau:** | |
| **DECHREUWYR:** Dydd Sadwrn | 10:30am - 11:30am | 24/09/2022 | 30 wyth |
| **Y RHEINY SY'N GWELLA:** Dydd Sad | 11:30am - 12:30pm | 24/09/2022 | 30 wyth |
| **Rhithwir / Ar-lein** | | **Dechrau:** | |
| **Y RHEINY SY'N GWELLA:** Dydd Maw | 6:00pm - 7:00pm | 27/09/2022 | 30 wyth |
| **CANOLRADD:** Dydd Mawrth | 2:30pm - 3:30pm | 27/09/2022 | 30 wyth |
| **CANOLRADD:** Dydd Sadwrn | 9:15am - 10:15am | 24/09/2022 | 30 wyth |

£ Am Ddim







## Cyfrifiaduron i Ddechreuwyr

Ychydig iawn neu braidd dim profiad o Microsoft Word? Mae'r cwrs yma'n berffaith i chi! Os ydych chi'n defnyddio Microsoft Word ac wedi dysgu eich hun, bydd y cwrs o fudd i chi. Cewch ddysgu am derminoleg Microsoft Word, ffyrdd haws i wneud pethau ar y bysellfwrdd a chyflawni'r hyn rydych chi'n ei ddymuno.

**Ar y cwrs yma byddwch chi'n dysgu sut i:**

- Creu dogfennau Microsoft Word
- Dod yn gyfarwydd â'r hyn sydd ar y sgrin
- Dylunio'ch dogfennau chwaethus eich hun
- Deall terminoleg
- Ychwanegu testun a delweddau
- Newid testun, arddull a lliw

£ Am Ddim

| **Canolfan Pennar** | | **Dechrau:** | |
|---|---|---|---|
| Dydd Mawrth | 9:30am - 12:00pm | 27/09/2022 | 12 wyth |
| **CDG Garth Olwg** | | **Dechrau:** | |
| Dydd Llun | 9:30am - 12:00pm | 26/09/2022 | 12 wyth |
| *Defnyddwyr heb unrhyw brofiad yn unig* | | | |
| **Llys Cadwyn** | | **Dechrau:** | |
| Dydd Iau | 1:00pm - 3:30pm | 29/09/2022 | 12 wyth |
| **Llyfrgell Rhydfelen** | | **Dechrau:** | |
| Dydd Llun | 9:30am - 12:00pm | 26/09/2022 | 12 wyth |

## Y we ac e-bost (Yn ôl i'r Hanfodion)

Ar y cwrs yma byddwch chi'n dysgu sut i ddefnyddio'r we yn ddiogel er mwyn cadw'ch cyfrifiadur a'r wybodaeth sydd arno'n ddiogel. Byddwch chi'n deall sut i adnabod sgamiau a chadw'n ddiogel gan ddilyn ychydig o gamau syml i amddiffyn eich hun a'ch data.

**Bydd y cwrs yma'n eich helpu i:**

- Dod o hyd i wybodaeth gan ddefnyddio peiriant chwilio
- Defnyddio gwefannau ac apiau ar-lein lle gewch chi wylio fideos a gwrando ar gerddoriaeth
- Sgwrsio gyda ffrindiau a'r teulu, anfon negeseuon a gwneud galwadau fideo
- Siopa'n ddiogel ar-lein
- Deall dolenni a nodau tudalen
- Anfon negeseuon e-bost, eu derbyn a'u hanfon ymlaen
- Atodi dogfennau a lluniau i negeseuon e-bost

Am Ddim

**CDG Garth Olwg** | **Dechrau:**
Dydd **Llun** | 12:30pm - 3:00pm | 26/09/2022 | 12 wyth

## Gloywi'ch sgiliau Technoleg Gwybodaeth

Ar y cwrs yma byddwch chi'n dysgu sut i ddefnyddio'r Microsoft 365 newydd a'i holl apiau.

**Bydd y cwrs yma'n eich helpu i:**

- Defnyddio Microsoft Word
- Arbed eich lluniau a'ch ffeiliau i'r cwmwl
- Rhannu dogfennau a lluniau â'ch teulu a'ch ffrindiau yn y fan a'r lle
- Cyrchu'ch lluniau a'ch ffeiliau ar eich holl ddyfeisiau o unrhyw le, unrhyw bryd

A llawer yn rhagor...

Am Ddim

**Rhithwir / Ar-lein** | **Dechrau:**
Dydd **Mawrth** | 6:00pm - 8:30pm | 27/09/2022 | 12 wyth

## Diweddaru eich sgiliau cyfrifiadurol

Bydd y cwrs yma'n gwella'ch sgiliau cyfrifiadurol. Mae'r cwrs yma ar Microsoft Teams, felly, byddwch chi'n dysgu sut i ddefnyddio'r ystod o apiau sy'n rhan o Teams, ynghyd â gwella'ch sgiliau e-bost a storio pethau yn y cwmwl.

Byddwn chi hefyd yn dysgu am yr ystod o apiau Google, e.e. Google Docs, Google Sheets a Google Slides, a sut i weithio ar y cyd, a oedd yn rhan bwysig o'n gwaith a'n bywydau yn ystod y cyfnodau clo!

Am Ddim

**Rhithwir / Ar-lein** | **Dechrau:**
Dydd **Mercher** | 1:00pm - 3:30pm | 28/09/2022 | 12 wyth

## Mynd â'ch sgiliau Technoleg Gwybodaeth newydd i'r lefel nesaf

Ar y cwrs yma byddwch chi'n dysgu sut i ddefnyddio'r Microsoft 365 newydd a'i holl apiau.

**Bydd y cwrs yma'n eich helpu i:**

- Defnyddio Microsoft Word
- Arbed eich lluniau a'ch ffeiliau i'r cwmwl
- Rhannu dogfennau a lluniau â'ch teulu a'ch ffrindiau yn y fan a'r lle
- Cyrchu'ch lluniau a'ch ffeiliau ar eich holl ddyfeisiau o unrhyw le, unrhyw bryd

A llawer yn rhagor...

Am Ddim

**CDG Garth Olwg** | **Dechrau:**
Dydd **Mawrth** | 1:00pm - 3:30pm | 27/09/2022 | 12 wyth

## Dysgu defnyddio Microsoft 365

**Mae'r cwrs yma ar gyfer unrhyw un sy'n defnyddio Microsoft 365 o'r newydd. Byddwch chi'n dysgu sut i ddefnyddio Microsoft 365, gan edrych ar yr holl apiau y mae'n ei gynnig.**

Arbedwch eich ffeiliau yn ddiogel yn y cwmwl er mwyn cael mynediad iddyn nhw o unrhyw le ac ar unrhyw ddyfais. Gyda OneDrive mae eich ffeiliau yn ddiogel ac yn hygyrch o unrhyw le ar eich holl ddyfeisiau.

Rhannwch ddogfennau a lluniau mewn amser real gyda'ch ffrindiau a'ch teulu.

£ Am Ddim

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhithwir / Ar-lein** | | **Dechrau:** | |
| Dydd **Iau** | 1:00pm - 3:30pm | 29/09/2022 | 12 wyth |

## iPad (yn unig)

**Ar y cwrs yma byddwch chi'n dysgu sut i fwynhau defnyddio'ch iPad a dod o hyd i awgrymiadau, triciau a thechnegau i wneud argraff ar eich ffrindiau a'ch teulu.**

Mae'r cwrs yma'n berffaith os mai dyma'ch iPad cyntaf neu os ydych chi wedi cael un ers tro: Chwilio ar y we, pori drwy negeseuon e-bost a'r cyfryngau cymdeithasol; Darllen llyfr; Gwrando ar gerddoriaeth a phodlediadau; Chwarae gemau; Gwylio ffilmiau, rhaglenni teledu a fideos YouTube; Tynnu lluniau a'u trefnu mewn albwm.

£ Am Ddim

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Plaza'r Porth** | | **Dechrau:** | |
| Dydd **Mercher** | 9:30am - 12pm | 28/09/2022 | 12 wyth |
| **CDG Garth Olwg** | | **Dechrau:** | |
| Dydd **Iau** | 9:30am - 12pm | 29/09/2022 | 12 wyth |

## iPads, llechi a ffonau clyfar


**Ar y cwrs yma byddwch chi'n dysgu sut i:**

- Gwella eich hyder wrth ddefnyddio iPad, llechen Android neu ffôn clyfar
- Deall sut i lawrlwytho apiau
- Defnyddio gwahanol apiau ynghyd â deall terminoleg ddigidol a sut i gadw'ch dyfais ddigidol yn ddiogel

P'un a oes gyda chi ddyfais ddigidol dydych chi ddim yn ei defnyddio neu os hoffech chi ddysgu rhagor amdani, bydd y cwrs yma'n eich helpu i wneud hynny.

£ Am Ddim

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Calon Taf** | | **Dechrau:** | |
| Dydd **Llun** | 1:00pm - 3:30pm | 26/09/2022 | 12 wyth |
| **Llyfrgell Hirwaun** | | **Dechrau:** | |
| Dydd **Mercher** | 9:30am - 12pm | 28/09/2022 | 12 wyth |
| **Llys Cadwyn** | | **Dechrau:** | |
| Dydd **Gwener** | 9:30am - 12pm | 30/09/2022 | 12 wyth |



## **ICDL** (ECDL gynt)

Mae'r Drwydded Yrru Gyfrifiadurol Ryngwladol (ICDL) yn helpu dysgwyr i ddeall cyfrifiaduron yn well. Mae hefyd yn hybu defnyddio meddalwedd mewn ffordd effeithlon. Mae cyflogwyr ledled y byd yn cydnabod y cymhwyster yn un safonol o ran sgiliau digidol a Thechnoleg Gwybodaeth defnyddwyr.

P'un a ydych chi'n ddechreuwr llwyr neu'n gweithio â chyfrifiaduron eisoes, dyma'r cymhwyster i chi.

**Byddwch chi'n astudio:**

- Diogelwch TG i ddefnyddwyr (Lefel 1)
- Hanfodion cyfrifidauron (Lefel 1)
- Prosesu geiriau (Lefel 2)
- Meddalwedd taenlenni (Lefel 2)
- Meddalwedd cronfeydd data (Lefel 2)
- Meddalwedd cyflwyniadau (Lefel 2)
- Hanfodion ar-lein (Lefel 1)

Wrth gwblhau'r saith modiwl, byddwch chi'n ennill y cymhwyster ICDL llawn.

£324*

**Dull Dysgu Cyfunol** — **Dechrau:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd **Mercher** | 1:30pm - 3:30pm | 28/09/2022 | 34 wyth |
| Dydd **Mercher** | 6:00pm - 8:00pm | 28/09/2022 | 34 wyth |

* Mae modd talu £108 bob tymor, h.y. Medi 2022, Ionawr 2023 a Mai 2023





## **ICDL Pellach**

Mae Lefel 3 yn eich galluogi i ddefnyddio'r wybodaeth ddigidol sydd gyda chi eisoes yn sail i ddod yn arbenigwr wrth ddefnyddio'r apiau meddalwedd hanfodol ym mhob busnes heddiw.

P'un a ydych chi'n chwilio am swydd newydd neu ddyrchafiad, gall ychwanegu cymhwyster digidol at eich CV eich helpu i gyrraedd y nod.

**Byddwh chi'n astudio (Lefel 3):**

- Prosesu geiriau
- Meddalwedd cyflwyniadau
- Taenlenni
- Cronfeydd data

Mae'r modiwlau yma'n gymwysterau unigol. Gall dysgwyr ddewis a dethol pa rai maen nhw am eu hastudio.

£85 y modiwl*

*I'w dalu wrth gofrestru neu cyn pob modiwl newydd.*

**Dull Dysgu Cyfunol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dydd **Mercher** | 2:30pm - 3:30pm | 28/09/2022 | 34 wyth |
| Dydd **Mercher** | 7:00pm - 9:00pm | 28/09/2022 | 34 wyth |

Mae'r cyrsiau yma ar gael ar-lein, wyneb yn wyneb neu'r ddau - chi sy piau'r dewis!
**Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth.**

## Hanes y Teulu

Dysgu rhagor am hanes y teulu ar bob lefel o allu gan ddefnyddio gwefannau Ancestry a Find My Past.

£ Am Ddim

| | | | Dechrau: | |
|---|---|---|---|---|
| **CDG Garth Olwg** | Dydd Iau | 10:00am - 12:00pm | 29/09/2022 | 15 wyth |
| **Llys Cadwyn** | Dydd Mawrth | 10:00am - 12:00pm | 27/09/2022 | 15 wyth |

## Hanes Lleol

Dysgu rhagor am hanes cymoedd y de yn ystod y chwyldro diwydiannol.

£ Am Ddim

| | | | Dechrau: | |
|---|---|---|---|---|
| **Llys Cadwyn** | Dydd Gwener | 10:00am - 12:00pm | 30/09/2022 | 15 wyth |
| **Rhithwir / Ar-lein** | Dydd Iau | 7:00pm - 9:00pm | 29/09/2022 | 15 wyth |

## Hanes Celf

Astudio hanes adeiladau Cymreig enwog a mannau o ddiddordeb hanesyddol.

£ Am Ddim

| | | | Dechrau: | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhithwir / Ar-lein** | Dydd Mercher | 7:00pm - 9:00pm | 28/09/2022 | 15 wyth |





## Celf a Dylunio

**Lefel 2:** Dyma brosiect celf cyfrwng cymysg o'ch dewis sy'n edrych ar natur a chelf. Mae'r cwrs lefel 2 yma mewn Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang wedi'i ardystio gan Agored Cymru ac mae'n para am bum wythnos.

**Lefel 3:** Dyma gwrs celf sylfaen pymtheg wythnos o hyd sy'n manylu ar ystod eang o wahanol ddisgyblaethau, gan gynnwys braslunio, cymysgu lliwiau, dyfrliw, acrylig, ffotograffiaeth ac ati. Bydd yr holl ddeunyddiau yn cael eu darparu. Mae wedi'i ardystio gan Agored Cymru.

Dewch â llyfr braslunio, pensiliau, pennau a'ch dewis o gyfryngau.

£ Am Ddim

| **Gartholwg LLC** | | | Dechrau: | |
|---|---|---|---|---|
| **LEFEL 2:** | Dydd Llun | 9:30am - 11:30am | 26/09/2022 | 5 wyth |
| **LEFEL 3:** | Dydd Llun | 9:30am - 11:30am | 07/11/2022 | 15 wyth |

## Y cyfryngau creadigol

**Lefel 2:** Cyflwyniad i'r cyfryngau creadigol sy'n manylu ar ddiwylliant a'r amgylchedd. Mae'r cwrs lefel 2 yma mewn Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang wedi'i ardystio gan Agored Cymru ac mae'n para am bum wythnos

***Wythnos 1:*** Newyddiaduraeth; ***Wythnos 3***: Celf; ***Wythnos 3***: Ffasiwn; ***Wythnos 4***: Dylunio; ***Wythnos 5***: Ysgrifennu sgript ffilm ddogfen

*Dewch â llyfr nodiadau/braslunio, pensiliau a phennau.*

**Lefel 3:** Dyma gwrs sylfaen creadigol sy'n manylu ar newyddiaduraeth, ysgrifennu, teledu, print, ffilm, cerddoriaeth, drama, celf, darlunio a dylunio. Mae'n para am bymtheg wythnos. Bydd yr holl ddeunyddiau yn cael eu darparu. Mae wedi'i ardystio gan Agored Cymru.

Yn addas i bawb sydd am roi tro ar lwybrau creadigol cyn cychwyn addysg uwch yn y brifysgol, sy'n ystyried newid yn eu gyrfa neu sydd am wybod rhagor am lwybrau'r cyfryngau creadigol.

£ Am Ddim

| **Ar-lein drwy'r Brifysgol** | | | Dechrau: | |
|---|---|---|---|---|
| **LEFEL 2:** | Dydd Llun | 12:00pm - 2:00pm | 07/11/2022 | 15 wyth |
| **LEFEL 3:** | Dydd Llun | 12:00pm - 2:00pm | 07/11/2022 | 15 wyth |



## Celfyddydau Mynegiannol mewn Iechyd

**Lefel 2:** Dyma gyflwyniad i nifer o gelfyddydau ar gyfer iechyd a lles a'r berthynas rhwng y celfyddydau (celf, cerddoriaeth, drama, ysgrifennu, symud) a'r byd natur. Mae'r cwrs lefel 2 yma mewn Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang wedi'i ardystio gan Agored Cymru ac mae'n para am bum wythnos.

***Wythnos 1:*** Ysgrifennu creadigol; ***Wythnos 2:*** darlunio a phaentio; ***Wythnos 3:*** Tecstiliau; ***Wythnos 4:*** Cerddoriaeth a dawns; ***Wythnos 5:*** Y celfyddydau perfformio

*Dewch â llyfr nodiadau/braslunio, pensiliau a phennau a phaent ar Wythnos 2.*

**Lefel 3:** Dyma gwrs sylfaen sy'n canolbwyntio ar ystod eang o gelfyddydau a meysydd iechyd. Byddwch chi'n dysgu sut i gynnal gweithdai celf ar gyfer iechyd a lles pobl. Mae'n cwmpasu technegau'r celfyddydau mynegiannol a thechnegau celfyddydau therapiwtig (celf, cerddoriaeth, drama, symud, ysgrifennu). Mae'r cwrs yn para am bum wythnos ar hugain. Mae'r cwrs yn ystyried deddfwriaeth, iechyd a diogelwch a lles drwy ymgysylltu â'r celfyddydau. Caiff deunyddiau eu darparu ar eich cyfer. Wedi'i ardystio gan Agored Cymru - Y Celfyddydau Mynegiannol mewn Iechyd (Lefel 3). Yn addas i bawb sydd am gynnal gweithdai proffesiynol neu wella eu lles eu hunain drwy fod yn greadigol, mynd ymlaen at addysg uwch yn y brifysgol neu newid cyfeiriad yn eu gyrfa.

£ Am Ddim

| Ar-lein drwy'r Brifysgol | | Dechrau: | |
|---|---|---|---|
| **LEFEL 2:** Dydd Llun | 3:00pm - 5:00pm | 26/09/2022 | 15 wyth |
| **LEFEL 3:** Dydd Llun | 3:00pm - 5:00pm | 07/11/2022 | 15 wyth |

## Celfyddydau er Lles

15 munud o fyfyrio â thywysydd, 10 munud o ysgrifennu dyddiadur ac awr a hanner o brosiect celf aml-gyfrwng i drac sain.

Dewch â llyfr braslunio, pensiliau, pennau a'ch dewis o gyfryngau.

£ Am Ddim

| Rhithwir / Ar-lein | | Dechrau: | |
|---|---|---|---|
| Dydd Mercher | 3:00pm - 5:00pm | 28/09/2022 | 15 wyth |





## Gwerthfawrogi llenyddiaeth

Ar y cwrs yma byddwch chi'n dysgu am wahanol arddulliau o lenyddiaeth Saesneg, gan gynnwys barddoniaeth, ffuglen, nofelau, dramâu ac ati.

Byddwn ni'n canolbwyntio ar ystod eang o destunau yn rhan o'r cwrs – o gerddi mewn llyfr i farddoniaeth 'fyw' ac o glasuron ffuglen i nofelau modern. Bob wythnos rydyn ni'n ymchwilio i bwnc i'w drafod yn y dosbarth. Dewch i ymuno â ni am drafodaeth fywiog!

£ Am Ddim

| CDG Garth Olwg | | Dechrau: | |
|---|---|---|---|
| Dydd Mercher | 6pm - 8pm | 28/09/2022 | 15 wyth |

## Ysgrifennu Creadigol

Ysgrifennu creadigol: Ysbrydoliaeth a gweithdy. Byddwch yn greadigol gyda thasgau ysgrifennu wythnosol amrywiol a rhannu eich gwaith mewn amgylchedd meithringar a chefnogol.

Archwiliwch ffuglen, ysgrifennu ffeithiol a barddoniaeth i herio eich hun neu ddefnyddio'r dosbarth i ddatblygu arfer ysgrifennu. Ymunwch ag un o'r grwpiau cyfeillgar hyn er mwyn chi i ysgrifennu o'ch pen i'r dudalen.

£ Am Ddim

| Rhithwir / Ar-lein | | Dechrau: | |
|---|---|---|---|
| Dydd Mercher | 4pm - 6pm | 28/09/2022 | 15 wyth |
| **CDG Garth Olwg** | | **Dechrau:** | |
| Dydd Iau | 6pm - 8pm | 29/09/2022 | 15 wyth |

## Uwchgylchu dillad

Ewch ati i ailwampio ac uwchraddio'ch cwpwrdd dillad trwy newid hemiau, gyddfliniau, ychwanegu pocedi a botymau neu ddefnyddio clytwaith i drawsnewid hen eitemau yn rhai newydd!

Cewch ddefnyddio ein peiriannau gwnïo ac ymarfer arnyn nhw.

£ Am Ddim

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CDG Garth Olwg** | | **Dechrau:** | |
| Dydd Mercher | 9:30am - 11:30am | 28/09/2022 | 15 wyth |
| **Canolfan Pennar** | | **Dechrau:** | |
| Dydd Mawrth | 9:00am - 11:00am | 27/09/2022 | 15 wyth |
| **Pentre** | | **Dechrau:** | |
| Dydd Gwener | 10:00am - 12:00pm | 30/09/2022 | 15 wyth |

## Crefft Siwgr

Dyma ddosbarth i ddechreuwyr. Byddwch chi'n gweithio gyda phast siwgr gan greu detholiad o flodau siwgr, ffigyrau 3D ac addurniadau i fynd ar ben bob math

£ Am Ddim

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Canolfan Pennar** | | **Dechrau:** | |
| Dydd Mercher | 1:00pm - 3:00pm | 28/09/2022 | 15 wyth |

## Celf Blodau

Gan ddefnyddio blodau artiffisial, byddwch chi'n creu detholiad o arddangosfeydd blodau, gan gynnwys garlantau, potiau, basgedi a fasau i'w mwynhau yn y cartref.

£ Am Ddim

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Canolfan Pennar** | | **Dechrau:** | |
| Dydd Gwener | 10:00am - 12:00pm | 30/09/2022 | 10 wyth |



## Anrhegion wedi'u gwneud â llaw ar gyfer y Nadolig

Ar y cwrs yma, byddwch chi'n dysgu sut i wneud cardiau wedi'u gwneud â llaw gan ddefnyddio ffabrig, torchau, addurniadau i'r bwrdd a'r goeden a hosanau.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CDG Garth Olwg** | | **Dechrau:** | |
| Dydd Mercher | 12:00pm - 2:00pm | 28/09/2022 | 10 wyth |
| **Canolfan Pennar** | | **Dechrau:** | |
| Dydd Mawrth | 11:15am - 1:15pm | 27/09/2022 | 10 wyth |
| **Penrhiwceiber** | | **Dechrau:** | |
| Dydd Mawrth | 2:00pm - 4:00pm | 27/09/2022 | 10 wyth |
| **Plaza'r Porth** | | **Dechrau:** | |
| Dydd Gwener | 12:30pm - 2:30pm | 30/09/2022 | 10 wyth |

£ Am Ddim

## Gitâr: Gwella'ch sgiliau

Ar gyfer chwaraewyr sydd eisoes yn adnabod ychydig o gordiau, mae'r cwrs yma'n cynnig amgylchedd cefnogol gyda llyfr caneuon pwrpasol, fideos ar-lein a grŵp o gyfoedion cyfeillgar. Dysgwch hyd at ddeg cân y tymor a gwella eich chwarae drwy jamio gydag ensemble.

Gwych i gitarwyr sydd am wella neu sydd eisiau chwarae caneuon gyda phobl o'r un anian.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llyfrgell Aberdâr** | | **Dechrau:** | |
| Y RHEINY SY'N GWELLA: Dydd Llun | 6:00pm - 8:00pm | 26/09/2022 | 15 wyth |
| **Llys Cadwyn** | | **Dechrau:** | |
| Y RHEINY SY'N GWELLA: Dydd Maw | 5:00pm - 6:45pm | 27/09/2022 | 15 wyth |
| **CDG Garth Olwg** | | **Dechrau:** | |
| Y RHEINY SY'N GWELLA: Dydd Iau | 4:00pm - 6:00pm | 29/09/2022 | 15 wyth |

£ Am Ddim

## Cymorth Cyntaf Brys

Yn addas i bawb sydd am ddysgu hanfodion cymorth cyntaf i'w helpu nhw yn eu bywyd bob dydd ac yn gyffredinol o ran gofynion cymorth cyntaf.

£45

| Lleoliad | Diwrnod | Amser | Dechrau: | Hyd |
|---|---|---|---|---|
| **Canolfan Pennar** – **LEFEL 3:** | Dydd Gwener | 9:00am - 4:30pm | 07/10/22 | 1 diwrnod |
| **CDG Garth Olwg** – **LEFEL 3:** | Dydd Gwener | 9:00am - 4:30pm | 21/10/22 | 1 diwrnod |
| **Llyfrgell Tonypandy** – **LEFEL 3:** | Dydd Gwener | 9:30am - 4:30pm | 14/10/22 | 1 diwrnod |

## Diogelwch Bwyd wrth Arlwyo

Yn ymwneud â phob agwedd ar ddiogelwch bwyd. Yn addas i bawb sy'n gweithio yn y diwydiant bwyd neu sydd am baratoi bwyd i'r teulu a ffrindiau yn ddiogel.

£30

| Lleoliad | Diwrnod | Amser | Dechrau: | Hyd |
|---|---|---|---|---|
| **CDG Garth Olwg** – **LEFEL 2:** | Dydd Gwener | 9:00am - 4:30pm | 04/11/22 | 1 diwrnod |
| **Pafiliwn Pontypridd** – **LEFEL 2:** | Dydd Gwener | 9:30am - 4:30pm | I'w gadarnhau | |



## "Amdanaf i" (Meddwl iach, corff iach)

Mae "Amdanaf i" yn gyfle i chi gwrdd â phobl eraill a myfyrio ar eich iechyd. Cewch awgrymiadau a chymhelliant i fyw bywyd iachach.

Am Ddim

| Lleoliad | Diwrnod | Amser | Dechrau: | Hyd |
|---|---|---|---|---|
| **Calon Taf** | Dydd Iau | 9:30am - 12:30pm | 13/10/2022 | 3 wyth |
| **CDG Garth Olwg** | Dydd Gwener | 9:30am - 12:30pm | 14/10/2022 | 3 wyth |

## Datblygiad Personol

Mae'r cwrs yma'n ddilyniant perffaith o'r cwrs "Amdanaf i". Wrth ganolbwyntio ar nodau, byddwch chi'n dysgu am yr hyn sy'n effeithio ar eich ymddygiad ac yn cael awgrymiadau i gael y gorau o fywyd. Yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach i chi yn seiliedig ar osod nodau.

Am Ddim

| Lleoliad | Diwrnod | Amser | Dechrau: | Hyd |
|---|---|---|---|---|
| **Ar-lein / Cyfunol** | Dydd Mawrth | 12:30pm - 3pm | 11/10/2022 | 10 wyth |

## STEM Cyflwyniad llawn hwyl

Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM). Mae'r cwrs yma'n eich tywys drwy bynciau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg mewn ffordd llawn hwyl. Gan eich annog i feddwl mewn ffordd chwilfrydig, byddwch chi'n gwerthfawrogi creu pethau o'ch cwmpas ac yn cwblhau eich tasg/arbrawf eich hun.

Am Ddim

| Lleoliad | Diwrnod | Amser | Dechrau: | Hyd |
|---|---|---|---|---|
| **Ar-lein / Cyfunol** | Dydd Mawrth | 9:30am - 12:00pm | 11/10/2022 | 8 wyth |



# CANOLFAN GYDOL OES
# GARTH OLWG

Heol Sant Illtyd, Pentre'r Eglwys, CF38 1RQ

## CYRSIAU I DDOD

### TGCh
IPad
Cwrs ICDL
Cyfrifiadureg

### DIDDORDEBAU
Gwau â gwen
Shiny Happy People
Côr Cân Taf
Grŵp iwcs
Band samba
Super choir
Garddio

### IECHYD A FFITRWYDD
Dawnsio llinell
Tai Chi steil Yang
Tai Chi Qigong
Qigong troellog
Ioga
Ioga i famau beichiog

### IEITHOEDD
Ffrangeg - sgwrsio
Almaeneg - dechreuwyr
Almaeneg - canolradd
Cymraeg

### PLANT A PHOBL IFANC
Pêl droed
Dawns bale, tap a modern
Clwb traed bach
Clwb traed mawr
Tylino babi
Clwb drama
Clwb Ffrangeg
Arius -Ysgol y celfyddydau

### CELF A CHREFFT
Gwnïo
Trefnu blodau
Ffeltio
Grŵp cwiltio
Peintio dyfrlliw
Clwb camera
Grŵp brodwaith
Peintio olew ac acrylic
Gwydr lliw


Canolfan Garth Olwg Centre
gartholwgllc
01443 570075
www.garth-olwg.cymru ~ golcreception@rctcbc.gov.uk


# Canolfan Garth Olwg Centre

## Digwyddiadau 2022-2023

Mae nifer o weithgareddau/digwyddiadau 'mlaen gyda ni! Mae rhywbeth at ddant pawb.

- Gweithdai crefft
- Sesiynau meddwlgarwch
- Sgyrsiau hanes
- Gweithdai di-wastraff
- Sioeau i blant ac oedolion











www.bookwhen.com/gartholwg


Canolfan Garth Olwg Centre
gartholwgllc 01443 570075
St, Illtyd's Road, Church Village, CF38 1RQ

Cymunedau am Waith+ Communities for Work+

# BWYDLEN



## I DDECHRAU

| | |
|---|---|
| Diweddaru CV | £0.00 |
| Cymorth Chwilio am Swyddi | £0.00 |
| Cymorth Gyda Cheisiadau Swydd | £0.00 |
| Cymorth Gyda Sgiliau Cyfweld | £0.00 |
| Cefnogaeth i Ddymchwel Rhwystrau o ran Gwaith | £0.00 |

## O'R GRIDYLL

| | |
|---|---|
| Hyfforddiant SIA (Trwydded y Diwydiant Diogelwch) | £0.00 |
| Hyfforddiant Cerdyn Cynllun Tystysgrif Sgiliau Adeiladu | £0.00 |
| Llwybr y Diwydiant Gofal | £0.00 |
| Hyfforddiant Diogelwch Personol ar y Traciau (PTS - Hyfforddiant i Weithio ar y Rheilffordd) | £0.00 |
| Llwybr Lletygarwch | £0.00 |

## TAMEIDIAU BLASUS*

| | |
|---|---|
| Cymorth gyda Chostau Teithio hyd at 4 wythnos | £0.00 |
| Cymorth gyda Dillad i ddechrau gweithio | £0.00 |
| Cymorth gyda Chostau Gofal Plant | £0.00 |

*Bwydlen Llawn Ar Gael Ar Gais

**Ffoniwch 01443 425761 neu anfonwch e-bost: caw@rctcbc.gov.uk**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHONDDA CYNON TAF